# Gwasanaeth Tân ac Achub Gorllewin Cymru

Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# Canllaw Cyn-Ymgynghoriad




Fersiwn Darllen Hawdd

# Amdanom Ni



Mae'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu wrth galon yr hyn rydyn ni'n ei wneud.




Mae ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn disgrifio sut y byddwn ni'n mynd i'r afael â risgiau, bygythiadau a heriau.



Mae gennym ni'r ardal fwyaf yng Nghymru a Lloegr.



Rydyn ni'n gwybod bod cymunedau'n newid, ac rydyn ni eisiau newid gyda nhw.



Mae'r mathau o ddigwyddiadau rydyn ni'n eu hwynebu, ac anghenion y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu, wedi newid.



Dros y pum mlynedd diwethaf rydyn ni wedi mynd i:



1.) 2,342 o danau mewn tai



2.) 886 o danau nad ydynt yn ddomestig



3.) 3,727 o ddamweiniau ffordd



4.) 3,975 o danau glaswellt a choedwigaeth



5.) 1,911 o achosion o lifogydd




6.) 5,732 o ymatebion meddygol




Rydyn ni nawr yn gwneud galwadau gwasanaeth arbennig, achub o ddŵr, achub anifeiliaid, ac achub o linell.



Rydyn ni hefyd yn mynd i lifogydd, damweiniau ffordd, tanau gwyllt, ac ymatebion meddygol.

Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod ein Gwasanaeth yn gallu addasu i newid.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod gennym ni'r offer iawn.



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni'n rhoi'r bobl iawn yn y lle iawn.



Rydyn ni eisiau clywed eich syniadau chi a'r hyn rydych chi'n ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth.

Drwy wneud hyn, gallwch chi ein helpu ni i wneud Gwasanaeth Tân ac Achub modern.



Mae gennym ni rai syniadau am yr hyn a allai gael ei newid, yn seiliedig ar yr hyn rydyn ni'n ei wybod.




Bydd y ddogfen hon yn dweud mwy wrthych chi.

# Faint mae'r Gwasanaeth yn ei Gostio



Byddwn ni bob amser yn meddwl am sut rydyn ni'n gwario arian ac yn gwneud yn siŵr ein bod ni'n ei wario gorau y gallwn.



Rydyn ni'n gwario llawer o arian ar osgoi tanau a damweiniau ac ar addysg am sut i gadw'n ddiogel.



Rydyn ni'n cael ein hariannu gan y 6 Chyngor yn ein hardal ni.



Ein cyllideb ni eleni yw £68,554,900.




Mae 74% o hwnnw'n cael ei wario ar bethau fel tân ac achub.



Mae 18% yn cael ei wario ar redeg ein Gwasanaeth.



Mae 8% yn cael ei wario ar dalu am adeiladau ac offer.



Rydyn ni'n cynllunio ein gwasanaeth o gwmpas risgiau a allai ddigwydd.



Mae'r risgiau'n cynnwys:



**1.)** Ffatrïoedd petrol a chemegol yn Aberdaugleddau a Llansawel



**2.)** Trefi a dinasoedd mawr fel Abertawe, Port Talbot, a Llanelli.



**3.)** Arfordir hir gyda phorthladdoedd a dyfrffyrdd mewndirol.



**4.)** Llawer o ffermio a diwydiannau ysgafn ar draws yr ardal.



Rydyn ni'n parhau i edrych ar ffyrdd o drin ein harian yn well.



Ond nid yw'n hawdd gwneud popeth sydd angen i ni ei wneud.



Rydyn ni eisiau gwario ein harian yn well a dal i wneud ein gwaith yn dda.




Mae ein gwasanaeth yn gweithio drwy'r dydd bob dydd. Mae hyn yn costio £6 y mis i chi.



Rydyn ni'n parhau i feddwl am ein cyllideb trwy drafod gyda staff, aelodau'r Awdurdod Tân, a'n cymunedau.

# Cadw Eich Cymunedau'n Ddiogel



Mae gennym ni 58 o orsafoedd tân ar draws tua 4,500 milltir sgwâr.



Rydyn ni'n mynd i fwy na 13,000 o ddigwyddiadau bob blwyddyn.

Fel Gwasanaeth rydyn ni wedi:



**1.)** Gwneud 69,662 o wiriadau diogelwch yn y cartref.



**2.)** Siarad â mwy na 163,190 o blant a phobl ifanc am atal tanau.




**3.)** Edrych ar sut y gall 13,763 o adeiladau fod yn fwy diogel.

# Moderneiddio Ein Gwasanaeth



Rydyn ni'n gwybod bod angen i ni newid a gwella llawer o rannau o'n Gwasanaeth ni.



Mae cymunedau Canolbarth a Gorllewin Cymru yn newid.



Mae'r digwyddiadau rydyn ni'n ymateb iddyn nhw yn newid hefyd.



Rydyn ni'n mynd i lai o danau nag o'r blaen.



Mae hyn oherwydd ein bod ni'n gwneud llawer i atal tanau.



Mae newid hinsawdd yn achosi mwy o danau gwyllt, llifogydd, a thrychinebau naturiol eraill.



Nid yw nifer y bobl sy'n byw yn ein hardal wedi newid llawer.



Mae llawer mwy o bobl hŷn.



Mae pobl yn byw yn hirach, ac mae eu hanghenion nhw yn newid.




Aethon ni i lawer o argyfyngau iechyd.



Roedd mwy o lifogydd a halogiad dŵr yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf hefyd.



Rydyn ni'n gwneud llawer mwy i atal tanau ac mae hyn yn golygu bod llai o danau wedi cael eu cynnau yn fwriadol.



Mae angen i ni feddwl am ein gwasanaeth a'i gynllunio yn well.




Mae angen i ni gynhyrchu llai o lygredd a gweithio'n well i'r amgylchedd.



Mae angen i chi feddwl am y tanwydd rydyn ni'n ei ddefnyddio. Mae angen i ni wella ein hadeiladau.



Gall technoleg newydd ein helpu ni i newid a gwella'r Gwasanaeth.



Gallai hefyd ein helpu ni i gadw diffoddwyr tân a chymunedau yn fwy diogel.

# Beth Allai Newid




**1.)** Ble mae ein Gorsafoedd Tân.




Mae'r rhan fwyaf o'n gorsafoedd tân yn yr un mannau lle cawsant eu hadeiladu yn y 1940au.



Mae angen i ni ystyried a ydyn nhw yn y lle iawn a gyda'r bobl iawn.



Mae 58 o leoliadau gorsaf ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru.



Mae gan 6 gorsaf dân griwiau llawn drwy'r amser.




Mae gan 7 gorsaf dân griw llawn ar adegau prysur.



Mae hyn yn cael ei alw'n System Criwio Dydd Hyblyg (FDCS)




Mae'r rhan fwyaf o orsafoedd tân eraill Ar Alwad.




Mae Ar Alwad yn golygu bod criwiau diffoddwyr tân yn mynd i'r orsaf dân dim ond pan fyddan nhw'n cael eu rhybuddio.




Mae'r personél hyn yn cael eu talu i weithio mewn argyfwng, gallan nhw wneud swyddi eraill yn ystod yr wythnos.




Mae 2 yn orsafoedd gwirfoddolwyr yn y Borth ac ar Ynys Bŷr.



**2.)** Gwasanaethau Atal ac Amddiffyn



Rydyn ni eisiau sicrhau bod ein gwiriadau diogelwch tân yn y cartref yn ymwneud â phobl a'r risgiau maen nhw'n eu hwynebu.




Felly, byddwn ni'n edrych ar y ffordd y caiff gwasanaethau amddiffyn ac atal eu darparu.




Bydd hyn yn ein helpu ni i ddefnyddio ein staff a'n hoffer yn well.




**3.)** Cynlluniau gwasanaeth brys



Mae angen i ni gael cynlluniau da ar gyfer digwyddiadau argyfyngus.




Mae angen i ni sicrhau bod ein pobl ni yn y lle iawn, gyda'r offer cywir, ac yn defnyddio'r sgiliau gorau.



**4.)** Technegau a thactegau diffodd tân



Mae angen i ni sicrhau bod gan ein pobl y sgiliau a'r hyfforddiant gorau.



Hefyd, mae angen i ni gyflwyno ffyrdd newydd o weithio ar gyfer mathau newydd o ddigwyddiadau.



**5.)** Adfywio adeiladau a thir y Gwasanaeth



Mae llawer o'n gorsafoedd tân yn hen ac wedi dyddio.



Dydyn nhw ddim yn gallu ymdopi â phethau fel halogiad.



Dydyn nhw ddim yn ecogyfeillgar ychwaith.



**6.)** Cerbydau ac offer



Mae'n rhaid i'n hoffer a'n cerbydau ddiwallu anghenion y cymunedau rydyn ni'n eu gwarchod.



Mae gennym yr un injan dân ym mhob gorsaf, gyda'r un offer.



Mae angen i ni feddwl pa offer ddylai fod ym mhob gorsaf dân.



Bydd rhai gorsafoedd yn mynd i fwy o rai mathau o ddigwyddiadau na mathau eraill o ddigwyddiadau.



**7.)** Sgiliau arbenigol



Dyma pryd mae ein diffoddwyr tân wedi hyfforddi i fod ar eu gorau mewn gwahanol fathau o dân ac achub.



Mae angen i ni edrych ar sgiliau arbenigol ar draws yr ardal.



Mae hyn yn bwysig iawn i'n helpu ni i gynllunio ar gyfer y risgiau, y bygythiadau a'r heriau y mae ein cymunedau ni'n eu hwynebu.

## 8.) Sut rydyn ni'n rhedeg y gwasanaeth tân




Mae angen i ni ddiweddaru sut rydyn ni'n rhedeg ein gwasanaeth i wneud yn siŵr ein bod ni'n ei wneud gorau y gallwn.



Bydd angen i ni fod yn well wrth ddefnyddio technoleg newydd.



Mae angen i ni feddwl am yr holl bethau rydyn ni'n eu gwneud a sut y gallwn ni eu gwneud nhw'n well.



Mae'n ymwneud â sut rydyn ni'n dod o hyd i staff newydd a sut rydyn ni'n defnyddio'r we.

# Pam Mae Angen Eich Mewnbwn Chi Arnom Ni



Y cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu yw'r rhan bwysicaf o'n gwaith ni.



Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n ei feddwl.

Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi ei eisiau gan Wasanaeth Tân ac Achub modern.



Rydyn ni eisiau gwybod beth sy'n fwyaf pwysig i chi.



Nid oes neb yn deall anghenion a heriau'r gymuned yn well na'r bobl sy'n byw ynddi.



Bydd gwybod am risgiau, heriau a phroblemau newydd yn ein helpu ni i wella ein gwasanaeth.



Bydd gofyn i'r cyhoedd yn golygu ein bod ni'n cynllunio'n well.



Gallwn ni gael gwybod am eich profiadau chi i'n helpu ni i fod yn well.



Mae gwrando ar bobl yn y gymuned yn bwysig iawn i ni.



Byddwn ni'n siarad â rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf i ddysgu beth maen nhw'n ei ddisgwyl gennym ni.



Mae rhanddeiliaid yn golygu pawb sydd â diddordeb yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud.

# Sut y Gallwch Chi Gymryd Rhan



Byddwn ni'n cynnal cyfres o gyfarfodydd ar draws ein hardal.



Rydyn ni eisiau i chi alw heibio a rhannu eich barn.



Byddwn ni'n cynnal cyfarfodydd ar-lein.




Gallwch chi gael gwybod mwy am ein cyfarfodydd ni ar y cyfryngau cymdeithasol.




Byddwn ni'n cynnal arolwg ar-lein.



Y nod yw darganfod faint mae pobl yn gwybod amdanon ni ac yn defnyddio ein gwasanaethau.



Mae hefyd yn ymwneud â deall anghenion y cymunedau rydyn ni'n gweithio iddyn nhw.



Rydyn ni eisiau gwybod beth sy'n bwysig i chi a beth rydych chi'n ei feddwl am ein gwasanaethau ni.

Gall eich adborth chi ein helpu ni i adeiladu dyfodol ein Gwasanaeth Tân ac Achub.



Rydyn ni'n annog pawb i roi gwybod i ni beth rydych chi'n ei feddwl.

# Y Camau Nesaf




Gallwch chi rannu eich barn drwy gymryd rhan yn ein harolwg.




Ni ddylai gymryd mwy na 10 munud.




Os hoffech chi gael yr arolwg mewn iaith neu fformat gwahanol, ffoniwch **0370 6060699**.



Byddwn ni'n edrych ar yr holl atebion i'n helpu ni i wneud y cynllun gorau ar gyfer y dyfodol.



Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau
a'ch awgrymiadau chi.

# Mwy o wybodaeth




Gallwch chi gael mwy o wybodaeth ar ein gwefan:

**www.mawwfire.gov.uk**



Rydyn ni'n croesawu eich sylwadau.

Gallwch chi gysylltu â ni:



Dros y ffôn: **03706060699**




Drwy e-bost: **mail@mawwfire.gov.uk**



Drwy'r post:

**Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub**

**Gorllewin Cymru**

**Rhodfa Lime Grove**

**Caerfyrddin**

**SA31 1SP**



**Dilynwch ni ar:**

Facebook: **facebook.com/mawwfire**

Twitter: **@mawwfire**

Instagram: **mawwfire_rescue**

**Cafodd y fersiwn darllen hawdd hwn ei greu gan**

**Planet Easy Read**

**Rydyn ni'n defnyddio Ffotosymbolau**